



Ein Cyf: MA-(P)/KS/4363/18

Mr John Lloyd Jones OBE

12 Rhagfyr 2018

Annwyl John

Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC)

Pwysleisir yn *Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu Economaidd* pa mor bwysig yw cydgysylltu ein hadnoddau a'n hymyraethau ar draws llywodraeth, er mwyn inni fedru gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion. Ein nod yw cydweithio a chydweithredu ar draws y carfanau traddodiadol o fewn llywodraeth i gyflawni'r nod honno ac i ymateb mewn ffordd integredig i rai o'r heriau dwysaf sy'n wynebu Cymru heddiw.

Mae ansawdd a chapasiti ein seilwaith yn hanfodol er mwyn galluogi twf a llesiant cynhwysol yn y tymor hir. Mae buddsoddi yn ein seilwaith:

- yn bwysig er mwyn sbarduno cynhyrchiant a thwf. Yn ôl y dystiolaeth, os oes gan bobl, busnesau a lleoedd gysylltiadau gwell, maent yn fwy cynhyrchiol fel arfer ac yn cael mwy o lwyddiant wrth fynd ati i sicrhau twf;
- yn hollbwysig er mwyn sicrhau cynhwysiant a llesiant. Mae ansawdd ein seilwaith yn sylfaen sy'n clymu ac yn cysylltu cymunedau, ac mae'n galluogi pobl i fanteisio ar y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i barhau'n iach, i ddysgu ac i ymwneud ag eraill;
- yn hanfodol er mwyn creu lleoedd, er mwyn sicrhau bod lleoedd yn cael yr effeithiau mwyaf posibl ar yr economi, ac er mwyn sbarduno adfywio. Os oes gan leoedd seilwaith da, maent yn gallu cynnal ystod o weithgareddau economaidd ac maent yn fannau deniadol i fyw, i ddysgu, i weithio ac i fuddsoddi ynddynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- yn cefnogi'r arbedion maint a'r effeithiau o ran creu rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â chrynodrefi – mae seilwaith o ansawdd yn golygu bod pobl yn gallu bod yn nes at swyddi a'u bod yn haws i fusnesau gysylltu â'i gilydd, gan helpu i drosglwyddo syniadau, i ledaenu arferion a datblygiadau arloesol ac i sicrhau bod sgiliau'n cydfynd yn well â swyddi sydd. Mae hyn i gyd yn cael dylanwad aruthrol ar gynhyrchiant ac ar dwf.

Mae'r cynllun yn gwneud ein huchelgais o greu economi gynhwysfawr drwy ranbarthau cryf sy'n mynd i'r afael â'n heriau hirdymor – i ddatgarboneiddio economi Cymru; i wella ein cynhyrchiant drwy ragor o arloesi; i hyrwyddo allforio a masnach; cynyddu nifer y gweithleoedd sydd â gwaith teg, a thrwy ymchwil a datblygu uniongyrchol, fynd i'r afael â heriau awtomatiaeth a digideiddio sydd o'n blaenau.

CSCC fydd yn llywio'n gwaith yn hyn o beth. Bydd yn gweithio ac yn cydweithredu mewn ffordd agored a thryloyw ar draws y rhanbarthau i nodi anghenion Cymru o ran seilwaith dros y 5-10 mlynedd nesaf. Byddwn yn cynllunio'n buddsoddiad yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn cyflawni prosiectau seilwaith a fydd yn ein helpu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Llywodraeth Cymru a'r comisiynwyr fydd yn cytuno ar drefniadau gweithio panel CSCC drwy sefydlu ffyrdd o weithio ac asesu meini prawf sy'n gyson â gofynion y llythyr hwn. Yn benodol mae'n rhaid i'r dull o asesu a gwerthuso fod yn seiliedig ar rwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y ffyrdd hyn o weithio a'r meini prawf asesu yn arwain y ffordd y bydd CSCC yn gweithredu ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru. Eir ati yn y llythyr hwn i bennu cylch gwaith CSCC ac i nodi materion y dylai CSCC roi sylw iddynt.

Bydd ansawdd y sylfaen dystiolaeth a fydd yn sail i argymhellion CSCC yn ystyriaeth o bwys i'r llywodraeth, a dylai CSCC sicrhau bod ei argymhellion yn cael eu blaenoriaethau'n glir. Wrth ddatblygu ei argymhellion, dylai CSCC ystyried sut i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng cynnal a gwneud y gorau o botensial asedau seilwaith sy'n bodoli eisoes, a'r cyfleoedd a fydd yn deillio o seilwaith newydd. Yn y naill achos a'r llall, bydd barn CSCC o ran gwerth am arian yn hollbwysig. Dylai CSCC hefyd ystyried yr effaith y gallai newidiadau technolegol a newidiadau eraill ei chael yn y dyfodol ar anghenion ac atebion o ran seilwaith. Dylai CSCC sicrhau na fydd ei argymhellion yn arwain at ailagor prosesau penderfynu ar ôl i'r llywodraeth benderfynu ar raglenni gwaith, neu pan fydd ar fin gwneud hynny.

Cylch Gwaith Cyllidol

Dylai CSCC ganolbwyntio ar nodi materion hollbwysig yng Nghymru y mae angen mynd i'r afael â nhw yn yr hirdymor drwy gyfrwng seilwaith. Ni ddylai, fel arfer, geisio mynd ati i nodi ac i fanylu ar atebion penodol – rhaid wrth waith dadansoddi manwl, drwy arfarnu'r opsiynau a datblygu achosion busnes, cyn y gellir nodi atebion. Am yr un rheswm, ni ddylai CSCC seilio'i argymhellion ar amcangyfrifon manwl o gostau. Ond wedi dweud hynny, bydd angen i CSCC ystyried maint y costau sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'i

argymhellion ac i sicrhau bod gobaith realistig o wireddu'i argymhellion drwy'r cyllidebau a fydd ar gael.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru gryn dipyn yn llai nag oedd yn 2010 mewn termau real oherwydd polisi cyni Llywodraeth y DU. Mae'r polisi hwnnw wedi arwain at doriadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i gyllid cyhoeddus. Nid ydym yn gwybod pa effaith a gaiff Adolygiad Gwariant gan Lywodraeth y DU yn 2019 ar gyllideb Cymru yn y dyfodol. Mae hyn yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch sut y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae gwariant cyfalaf diweddar ar swyddogaethau detholedig i'w weld yn Nhabl 1. Wrth lunio'i argymhellion, dylai CSCC ystyried tueddiadau diweddar o ran gwariant ond ni ddylai ganiatáu i'r tueddiadau hynny gyfyngu'n ormodol arno. Caiff gyflwyno achos o blaid buddsoddiad eithriadol os bydd o'r farn bod modd cyfiawnhau hynny. Os bydd yn gwneud hynny, caiff ystyried pa ffynonellau cyllido eraill a allai fod ar gael. Dylai CSCC flaenoriaethu'i argymhellion yn glir ac esbonio pa rai ohonynt yw'r rhai mwyaf hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y wlad o ran seilwaith yn yr hirdymor.

Gweler yr Atodiad i'r llythyr hwn sy'n rhoi rhagor o fanylion am y cylch gwaith cyllidol.

Tabl 1. Gwariant cyfalaf cyfartalog bob blwyddyn ar swyddogaethau detholedig, 2013-14 i 2017-18

	£ miliynau
Trafnidiaeth	
Wedi'i ddatganoli	380
Heb ei ddatganoli	230
Cyfathrebu Digidol	
Wedi'i ddatganoli	40
Heb ei ddatganoli	0
Rheoli gwastraff	
Wedi'i ddatganoli	20
Heb ei ddatganoli	60
Gwaith arall i ddiogelu'r amgylchedd	
Wedi'i ddatganoli	40
Heb ei ddatganoli	20
Cyfanswm	
Wedi'i ddatganoli	480
Heb ei ddatganoli	310

Cylch Gwaith Economaidd

Tra bo'r cylch gwaith cyllidol yn sicrhau bod CSCC, wrth lunio'i argymhellion, yn ystyried yr effaith ar y trethdalwr, mae'n bwysig cydnabod mai defnyddwyr a'r rheini sy'n talu biliau sy'n cyllido llawer o'n seilwaith. O'r herwydd, mae'n hollbwysig bod CSCC yn deall ac yn sylweddoli pwy fydd yn talu am gostau'r prosiectau hyn yn y pen draw, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y costau hynny a'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o'i argymhellion. Felly, wrth lunio'i argymhellion, dylai CSCC gynnwys asesiad tryloyw o'r effaith y byddai'r costau a fyddai'n gysylltiedig â rhoi cynnig ar waith yn ei chael ar fusnesau, defnyddwyr, cyrff cyhoeddus, ac ar eraill sy'n defnyddio seilwaith.

Rhaid i CSCC ymgymryd â'i waith yn unol â'r cylch gwaith hwn. O ran popeth arall, bydd gan CSCC y disgrisiwn i benderfynu'n annibynnol ar ei raglen waith, ar ei fethodolegau a'i argymhellion, a hefyd ar gynnwys ei adroddiadau a'i ddatganiadau cyhoeddus. Dylai CSCC geisio bod yn dryloyw ac ymgynghori wrth wneud ei waith, gan drafod yn eang a chreu consensws o blaid ei argymhellion.

Rhaid i CSCC gydymffurfio'n llawn â'r cylch gwaith hwn oni bai ei fod yn cael ei ddisodli gan lythyr cylch gwaith newydd, a rhaid iddo barau i gydymffurfio ag ef hyd nes i hynny ddigwydd.



Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

ATODIAD: Manylion y Cylch Gwaith Cyllidol

Dyma rhagor o fanylion am y cylch gwaith cyllidol:

- Mae'r cylch gwaith yn cyfeirio at y sectorau hynny y bydd CSCC yn ymdrin â nhw (h.y. y sectorau ynni, trafnidiaeth, dŵr, cyfathrebu digidol, rheoli llifogydd ac erydu arfordirol);
- Canllaw at ddibenion cynllunio yw'r cylch gwaith cyllidol yn hytrach nag yn ymrwymiad gan y llywodraeth. Yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud penderfyniadau am fuddsoddi yn y dyfodol;
- Rhaid i argymhellion CSCC gael eu costio'n glir. Wrth amcangyfrif, dylid cydnabod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chostio prosiectau a pholisïau hirdymor sy'n ymwneud â seilwaith (er enghraifft, y posibilrwydd y bydd y costau'n uwch na'r disgwyl a'r risg gyffredinol o ogwydd optimistiaeth). Er ei bod yn cydnabod annibyniaeth weithredol CSCC, mae Llywodraeth Cymru yn barod i weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau bod amcangyfrifon o ran costau mor gywir a realistig â phosibl.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion i CSCC am gostau sydd wedi'u hymrwymo, gan gynnwys ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020-21 (er enghraifft, prosiectau seilwaith hirdymor).